

Archifau Morgannwg



DARGANFOD Y GORFFENNOL

1 Mawrth 2014- 28 Chwefror 2015



Cynnwys



Cyflwyniad	2
------------	---

Sgiliau	4
---------	---

Mynediad	7
----------	---

Y Casgliad	11
------------	----

Cyflwyniad

Croeso i 5^{ed} Adroddiad Blynnyddol Archifau Morgannwg sy'n disgrifio ein weithgareddau yn y cyfnod o 1 Mawrth 2014 hyd at 28 Chwefror 2015.

Achrediad Archifau

2014 oedd y flwyddyn y cyflawnodd Archifau Morgannwg Achrediad Archifau. Yn 2012, dechreuodd sector archifau'r DU greu Safon Achredu Gwasanaeth Archifau. Y nod oedd datblygu meini prawf y gallai sefydliadau yn y sector cyhoeddus a phreifat eu defnyddio i wella hyfywedd a gwelededd archifau. Archifau Morgannwg oedd un o'r 20 o sefydliadau ledled y DU i roi cynnig ar y cynllun hwn, a defnyddiwyd yr adborth o'r peilot hwn i ddatblygu'r safon, meini prawf a chyfarwyddiadau.

Mae'r cynllun terfynol wedi bod ar waith ers Mawrth 2013, gyda llai na dwsin o wasanaethau'n cyflawni achrediad llawn yn y cyfnod hwnnw. Morgannwg yw'r gwasanaeth awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyrraedd y safon. Mae'r llythyr dyfarnu'n nodi:

Roedd y Panel o'r farn bod y cais hwn yn un eithriadol. Mae gan y gwasanaeth werthoedd craidd cryf a chlr, ac mae'n cyflawni ei nodau mewn ffordd holistig sydd o fudd i'r holl randdeiliaid. Mae effaith yr adeilad newydd o'r radd flaenaf i'w gweld yn glir, ond mae'r gwasanaeth hefyd yn gryf o safbwynt y gweithlu, datblygiad y gynulleidfa ac o ran ymdopi â newid ariannol a strategol. Roedd y Panel wedi nodi ac yn croesawu brwdfrydedd y gwasanaeth i ymdrin â materion anodd sy'n herio'r sector cyfan, megis gwarchodaeth ddigidol.



Nododd yr aseswyr weledigaeth glir ein rôl, y cyfleusterau modern a'r amrywiaeth brojectau gwirfoddoli a mynediad arloesol sy'n bodoli trwy bartneriaethau lleol ac ehangach. Mae'n braf cael cydnabyddiaeth am waith caled ac arfer da ac i staff weld eu hymdrechion yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

Cefnogir y safbwynt hwn gan ein cyfoedion sy'n parhau i ddefnyddio ein profiad ar gyfer datblygu eu gwasanaeth a'u projectau adeiladau eu hunain. Eleni rhoddwyd cymorth i wasanaethau archifo yn Sir Gaerfyrddin, Conwy, Cernyw, Dudley, Sir y Fflint, Swydd Lincoln, Powys a Suffolk, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a WEC International. Rydym wedi cyfrannu at ymgynghoriadau ar ddatblygiad treftadaeth adeiledig yng Nghymru yn y dyfodol, cynigion y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer canolfan cadwraeth genedlaethol a thrafodaethau cenedlaethol ar gyfraniad y sectorau treftadaeth a diwylliannol at wella bywydau yng Nghymru.

Sgiliau

Diogelu Treftadaeth Cymunedau Lleol - CLOCH

Mae CLOCH, sy'n rhan o raglen 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' Cronfa Dreftadaeth y Loteri, wedi cefnogi hyfforddeiaethau blwyddyn o hyd gyda thâl yn y sector treftadaeth i 16 o ddynion ifanc dros gyfnod o 3 blynedd. Cwblhaodd yr hyfforddeion diwethaf y rhaglen ym mis Ionawr a daeth gwerthusiad allanol o'r project i'r casgliad ei fod *"wedi llwyddo i gael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar hyfforddeion, sefydliadau lleoli a'r sector treftadaeth ehangach yng Nghymru."*

Mae CLOCH wedi cynnig cyfle sy'n gallu newid bywydau i'r unigolion hyn. Mae wedi arwain at ddatblygu partneriaethau integredig rhwng sefydliadau treftadaeth ledled De Cymru a rhwng yr awdurdod lleol a sectorau addysg uwch. Mae wedi dysgu ffyrdd newydd o weithio i staff a rhoi'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a manteisio ar ddysgu seiliedig ar waith. Gorau oll, mae wedi rhoi gwaith i ddynion ifanc lleol di-waith.



Daeth y project i ben â digwyddiad mawr yn Stadiwm Dinas Caerdydd lle y dosbarthodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth dystysgrifau a siaradodd penaethiaid Cyfranogi a Dysgu yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri, Cymunedau Cynhwysiant Digidol Cymru Gyfan 2.0, a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, am werth y project a'r potensial am bartneriaethau parhaus. Fel sy'n briodol, o ystyried diben y project, mae pob un o'r 3 uwch reolwr yn ferched.

Gwirfoddolwyr

Mae'r gwersi a ddysgwyd o CLOCH yn cael eu bwydo i mewn i'r rhaglen gwirfoddoli sy'n parhau i ddatblygu. Yn y 12 mis diwethaf mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu 7,547 awr at waith y swyddfa, amser sy'n gyfwerth â 4.25 aelod o staff.

Mae'r gwaith a wnânt yn ychwanegol i waith y staff. Eleni mae'r gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar dynnu gwybodaeth o'r Casgliad am fywyd yn ystod y rhyfel fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i geisiadau am gymorth gyda phrojectau coffáu.

Mae gwirfoddolwyr wedi trawsgrifio dyddiaduron a llythyrau o'r Rhyfel Byd Cyntaf ac wedi ysgrifennu erthyglau a blogiau ar eu canfyddiadau. Mae un archifwr wedi cwblhau cymhwyster rheoli gwirfoddolwyr ac rydym wedi croesawu ein hymweliadau cyntaf gan grwpiau gwirfoddolwyr trwy NADFAS. Mae gwirfoddolwyr NADFAS wedi glanhau ein holl gynlluniau degwm, nifer o'n planiau'r Arolwg Ordans ac wrthi'n glanhau, ail-focsio a mynegeo ar gyfer project ar-lein cenedlaethol, sef cytundebau criwiau ar gyfer porthladd Caerdydd.





Mae rhai gwirfoddolwyr wedi ymddeol ond mae eraill yn dod i gael profiad yn y sector neu i wella eu cyfle o ddod o hyd i waith gyda thâl. Eleni rydym wedi cefnogi a dysgu gan leoliad gwaith 3 myfyriwr gyda'r adran cadwraeth a 2 warchodwr dan hyfforddiant o Archifau Sir Benfro a Gwent a threuliodd ymgynghorydd cadwraeth CyMAL wythnos yn cysgodi'r tîm. Mae ECTARC wedi rhoi 3 archifydd o Gatalonia ar brofiad gwaith gyda ni am 3 mis.

Rydym wedi cefnogi 3 myfyriwr ar gyrsiau archifo dysgu o bell a 2 fyfyrwr o ACT sy'n trefnu hyfforddiant TGCh achrededig seiliedig ar waith yng Nghaerdydd. Rydym hefyd wedi parhau gyda'n partneriaeth â'r asiantaethau cyflogi Elite a Quest gyda 7 lleoliad eleni, yn bennaf i bobl ar y sbectrwm awtistig, i reoli trefn a magu hyder a sgiliau cymdeithasol wrth baratoi ar gyfer gwaith. Gyda chymorth Elite roeddem yn gallu cynnig cyfnod o waith gyda thâl trwy gynllun cyflogaeth DWP i un dyn ifanc ac rydym yn gweithio i sefydlu un arall trwy gynllun dros dro tebyg. Ysgrifennwyd geirdaon cyflogaeth ar gyfer 11 gwirfoddolwr blaenorol.

Mynediad

Tra bo defnydd unigol o'r ystafell chwilio wedi parhau gyda thua 3,500 yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ymweliadau gan grwpiau wedi cynyddu. Eleni rydym wedi croesawu 22 grŵp fel ymwelwyr i'r Archifau yn ogystal â 19 dosbarth o 10 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd, 561 o fyfyrwyr i gyd gyda'i gilydd, tra bo ymweliadau grŵp o 6 chwrs ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru wedi cyflwyno 82 o fyfyrwyr i'r Archifau. Mae bron i 4,500 o ymholiadau o bell wedi'u hateb a 11,500 o eitemau wedi'u cyrchu o'r Casgliad i'w defnyddio yn yr adeilad, sy'n debyg i ffigurau'r blynyddoedd diwethaf.

Mae staff wedi mynychu a chyfrannu at ddigwyddiadau treftadaeth ym mhob un o'n hawdurdodau cyllido. Fel rhan o'n rhaglen digwyddiadau haf cafwyd areithiau gan Catrin Collier ar ei chyfres nofel Hughesovka newydd a gan staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar wyliau haf a chasglu atgofion o Streic y Glowyr. Cawsom araith ar wisgoedd ymolchi, ffilmiau o'r Barri a Phenarth o Archif Sgrin a Sain Cymru a thaith gerdded o Ynys y Barri a ategwyd yn ôl yn yr adeilad gan amryw ddogfennau cysylltiedig. Fe wnaethom gymryd rhan yn Drysau Agored yn yr Archifau ac mewn partneriaeth â chydweithwyr Archifau Gwent yn amgueddfa Tŷ Weindio. Cafodd Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ei gynnal gan ddisgyblion blwyddyn 5 Ysgol Nant y Parc yn Senghennydd, ac roedd hwn yn un o uchafbwyntiau'r calendr. Daeth un o gyfarwyddwyr cenedlaethol Kids in Museums i'r digwyddiad ynghyd â gwirfoddolwr o'r sefydliad ac roedd ffotograffydd o Cyfryngu Cymru yno i dynnu lluniau. Dywedodd yr athro dosbarth *"O ran ymweliadau addysgol roedd hwn yn un o'r rhai gorau i mi fynychu... Cafodd y plant brofiad uniongyrchol o redeg yr archif"*



Yn ôl y disgwyl, mae llawer o'n gwaith cynnwys y gymuned wedi ymwneud â digwyddiadau canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Rydym yn bartneriaid mewn nifer o fentrau gan gynnwys Caerdydd yn Cofio a Rhondda yn Cofio. Mynychodd staff ddigwyddiadau yng Nghwmaman, Grangetown ac Ysgol Gynradd Albany yng Nghaerdydd, yn ogystal â lansiad y project Wales@War (ar long ryfel!) ac arddangosfa Gwent a'r Rhyfel Mawr (yn Archifau Gwent). Cafodd gwaith ein gwirfoddolwyr ei ddathlu gyda'n blog a'n hadnodd newydd ar y we ar gyfnod y rhyfel, *Summoned from the Hillsides*. Dechreuodd y blog ym mis Ionawr gyda chofnodion yn seiliedig ar y 75fed eitem a dderbynnir bob blwyddyn o'n bodolaeth ynghyd â hanesion byr am lety, llywodraethiant ac archifyddion y sir. Ers Awst, mae'r blog wedi coffáu'r rhyfel, gan ddechrau â dyddiadur Capten Mervyn Crawshay. Cynhaliwyd arddangosfa ar gartwnau Rhyfel Byd Cyntaf J.M Staniforth yn yr haf gydag araith gysylltiedig.



Mae partneriaethau presennol wedi'u parhau a phartneriaethau newydd wedi'u datblygu. Eleni rydym wedi cael y pleser o ddechrau gwaith ar brojectau gyda NoFit State Circus, Gweithdy'r Merched yn Butetown, Caerdydd, Mencap, grŵp Cynaeafu y Bont-faen ac Ymddiriedolaeth Ddinesig Rhiwbeina. Rydym yn cynorthwyo project cynllun degwm Cymru gyfan, Cynefin, ac yn cefnogi gwirfoddolwyr lleol sy'n trawsgrifio'r dosraniadau degwm. Aeth staff i fforwm Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LHDT) Caerdydd a'r Fro ac i ddathlu Mis Hanes LHDT cynhaliom araith ar ymchwilio i rywioldeb.




Mae'r ystafell fawr i gyfarfodydd grŵp yn cael ei llogi'n fynych gan ddarparwyr hyfforddiant sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ein targed incwm. Gyda chymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor defnyddiwyd cyfran o'r tanwariant o gyllideb y llynedd i rannu'r ystafell chwilio bresennol a darparu ardal i grwpiau ysgol a grwpiau eraill sydd â chylch cynllunio byrrach. Mae'r ystafell newydd, Llynfi, hefyd yn lle defnyddiol i arddangosiadau dros dro. Yn ogystal â'r arddangosfa ar gartwnau y soniwyd amdani uchod dangoswyd arddangosfa Llywodraeth Cymru ar drethiant i roi cyhoeddusrwydd i bwerau deddfwriaethol newydd. Croesawyd Jane Hutt, y Gweinidog dros Gyllid, i'r adeilad i weld yr arddangosfa a detholiad o ddogfennau o'r Casgliad yn dangos trethiant lleol hanesyddol ar waith.

Cyfanswm ymweliadau	8425
Defnyddwyr yr ystafell chwilio	3468
Grwpiau â chyfarfodydd	1237
Addysgol	643
Hyfforddiant (nid yn archifol)	3077

Mae ein presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i ddatblygu gyda'r wasg leol a chenedlaethol, teledu a radio yn trafod ein hanes. Mae staff wedi siarad ar BBC Radio Wales a Radio Cymru ac Made in Cardiff, ac mae cwmnïau teledu wedi ffilmio ar y safle 6 gwaith. Mae'r ystafell chwilio wedi ymddangos ar y One Show ac X-Ray eleni, mae'r Uwch Archifydd yn ymddangos yn rheolaidd ar Newyddion, ac mae Archifydd Morgannwg wedi trafod eitemau penodol ochr yn ochr â Leanne Wood ar Sunday Supplement. Mae'n bleser cofnodi mai Rhian Phillips sy'n gyfrifol am ein proffil cyhoeddus cynyddol a bod ei gwaith wedi'i gydnabod eleni trwy'r wobwr Hyrwyddwr Marchnata'r Flwyddyn – Archifau, un o Wobrau Rhagoriaeth Marchnata 2015. Mae'r gwobrau yn rhan o raglen Denu'r Gynulleidfa Llywodraeth Cymru i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ac yn cydnabod y gwaith a wneir gan staff ledled Cymru.



Y Casgliad




Mae mwy o gyhoeddusrwydd a'r ffaith bod mwy o bobl yn defnyddio'r adeilad (bron i 8500, cynnydd o 2,000 o'r ddwy flynedd flaenorol) wedi cyfrannu at gynnal y llif o eitemau a ychwanegir at y Casgliad. Yn ystod y 12 mis o'r adroddiad hwn rydym wedi derbyn 244 eitem (1 y dydd) o amryw ffynonellau. Mae nifer gynyddol o ddeunydd yn cael ei derbyn gan awdurdodau lleol, ysgolion ac ysbytai wrth i sefydliadau gael eu cau ac ystadau eu had-drefnu. Mae rhestr o eitemau i'w gweld yn yr adroddiadau chwarterol i Gyd-bwyllgor Archifau Morgannwg ar wefan Cyngor Caerdydd a chaiff disgrifiadau eu lanlwytho i'n catalog ar-lein ar ôl iddynt gael eu cwblhau.


Cafodd eitem ddiddorol mewn perthynas â helpa Eglwys Fair y Mynydd ei rhoi'n ddiennw. Cytundeb i gefnogwyr hela lleol gwrdd a hela ar Eglwys Fair y Mynydd ym mis Hydref 1754 yw'r darn unigol o bapur. Byddai pryd yn cael ei ddarparu gan John David a thenis yn cael ei chwarae a dawns 'i'r Merched' gyda'r nos. Llofnodir y cytundeb gan dros hanner cant o bobl, gyda nifer ohonynt yn perthyn i deuluoedd lleol.

Eitem arall a dderbyniwyd yn ddiennw oedd trefn gwasanaeth ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 1943 yn Stalag VIIIB, gwersyll carcharorion rhyfel Almaenig yn Lamsdorf, Gwlad Pŵyl. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys emynau, darlleniadau yn Gymraeg a Saesneg, a Hen Wlad Fy Nhadau. Credid bod yr 'A. Wey', a enwir fel y Dirprwy Organydd, yn filwr o Dreganna, Caerdydd. Cynhelir ymchwil bellach ar y cysylltiad lleol.

Cafwyd nifer o eitemau gan gyn-berchennog Circle Cinemas, cwmni oedd yn berchen ar sawl sinema yn Ne Cymru o'r 1970au ymlaen, gan gynnwys y Monico yn Rhiwbeina, Caerdydd, y Cameo, Bargoed, y Theatre Royal, Y Barri a lleoliadau yn Abertawe. Cynrychiolwyd diwylliant poblogaidd hefyd trwy recordiau Côr Meibion Caerffili, a ffurfiwyd yn 1906 gan 20 aelod o Glwb Criced Caerffili i godi arian i wella cyfleusterau'r clwb. Mae'r eitemau'n cynnwys rhaglenni, lluniau, dyddiaduron a gohebiaeth.



Roedd papurau teuluol yn cynnwys casgliad diddorol gan y teulu Young o Gwm Ogwr. Ganwyd Haydn Charles (Jack) Young, mab i löwr ym Mlaengarw yn 1914, ac ymunodd â'r llynges fasnachol yn 14 oed, gan ddychwelyd yn ddiweddarach i Gwm Ogwr lle chwaraeodd rygbi i Glwb Rygbi Cwm Ogwr ac yn 1964 daeth yn gynrychiolydd yr ardal ar Undeb Rygbi Cymru. Roedd e'n dewis chwaraewyr ar gyfer y tîm cenedlaethol rhwng 1969 a 1976, ac yn ddarparlywydd yr Undeb pan fu farw yn 1986. Cafodd ei wraig, Winifred Hopkins o Bontycymmer, ei hyfforddi'n athrawes yng Ngholeg Normal Bangor. Cyn ei phriodas bu'n addysgu yn Ysgol Fabanod Tondudun ac Ysgol Iau Blaengarw ac yn 1941 daeth yn ôl i weithio fel pennaeth ysgol feithrin amser rhyfel Ogwr. Parhaodd ar ôl y rhyfel nes iddi ymddeol yn 1971. Mae'r eitemau yn cynnwys papurau teuluol ac atgofion Mr a Mrs Young ac albwm lluniau o Ysgol Feithrin Cwm Ogwr.



Roedden ni'n falch o dderbyn brasluniau o adeiladau yng Nghaerdydd a'r ardal amgylchynol yn amlygu wyneb newidiol y rhanbarth ers y 1960au gan Mary Traynor, artist pensaernïol. Ategir at y cofnod hwn o'r dreftadaeth adeiledig gan dros 100 o luniau gan E. Turner & Sons Limited, Adeildwyr a Chontractwyr. Roedd y cwmni yn gyfrifol am adeiladu cyfres o adeiladau nodedig yn ardal Parc Cathays o Gaerdydd yn ogystal ag Ysbyty Brenhinol Caerdydd, y Swyddfa Bost Gyffredinol, y Llyfrgell Ganolog Am Ddim a'r Banc Taleithiol Cenedlaethol.

Roedd y ddwy rodd hyn yn rhan o gofnodion *Dogfen y Mis* poblogaidd ar y wefan. Gan nad ydym yn gwybod pwy sydd yn nifer o luniau Turner, lansiwyd apêl i'r cyhoedd trwy'r wasg leol a arweiniodd at gyhoeddusrwydd sylweddol a sawl awgrym.



Roedd Christopher Taylor yn hanesydd ac awdur â diddordeb helaeth mewn trafnidiaeth modur. Dros y blynyddoedd cyfrannodd Mr Taylor nifer o gofnodion yn ymwneud â thrafnidiaeth. Bu farw'n ddiweddar ac mae Archifau Morgannwg wedi derbyn cofnodion ychwanegol gan ei deulu gan gynnwys cofrestr trwyddedau cerbydau hacni Morgannwg, cofnodion Trafnidiaeth Unedig, ffeiliau cofrestru cerbyd a ffeiliau ymchwil ar gwmnïau rheilffordd.

Y gyfres fwyaf o gofnodion a dderbyniwyd oedd set o ffeiliau cerbyd a fyddai wedi cael eu cadw'n wreiddiol gan y swyddfa gofrestru leol. Mae'r anarferol i ffeiliau cerbyd manwl o'r fath oroesi gyda'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn cadw cofrestri trwyddedu cerbyd yn unig, gydag ond ychydig iawn o fanylion, neu gardiau mynegai sydd fel arfer yn cynnwys mwy o wybodaeth na chofrestri. Yn Archifau Morgannwg dim ond cofrestri trwyddedu a gedwir, â nifer ohonynt yn eitemau a roddwyd gan Chris Taylor. Byddai'r gyfres hon o ffeiliau cerbyd, felly, yn cynnig llawer o wybodaeth nad ydyw ar gael ar hyn o bryd. Gan eu bod wedi cyrraedd mewn cyflwr gwael mae cyllid wedi'i roi ar gyfer gwaith cadwraeth i'w gynnal cyn gwneud unrhyw waith didoli pellach a dewisiadau posibl.

Y Dyfodol

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus a heriol wrth i ni barhau i brofi'n gwerth i'n hawdurdodau cyllido ac i Lywodraeth Cymru, yn bodloni ein defnyddwyr traddodiadol, estyn mynediad a chefnogi agendâu ar gyfer addysg a hyfforddiant. Ond serch hynny, mae'r caledi ariannol yn parhau i'n herio ni. Nid yn unig y mae'r gyllideb wedi lleihau ond mae costau wedi codi. Mae'r adeilad wedi'i ailasesu sydd wedi arwain at werth ardrethol uwch a bil ardrethi busnes blynyddol y byddwn yn cael trafferth ei dalu. Mae sawl opsiwn yn cael ei ystyried.

Roedd nifer o'r gweithgareddau mynediad a nodwyd yma yn cael eu cyllido trwy grantiau gan CyMAL a weinyddir gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru. Mae'r gwaith o gatalogio posterï'r Theatre Royal a chofnodion y Bwrdd Glo Cenedlaethol wedi bod yn bosibl trwy grantiau tebyg sydd wedi arwain at allu cyflogi staff ychwanegol dros dro. O ran cadwraeth, roedd projectau mawr ar y posterï yn cael eu cyllido gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Llawysgrifau Cenedlaethol tra bo papurau'n gysylltiedig â datblygu'r broses Bessemer yn cael eu gwarchod fel rhan o broject Cymru gyfan ar y diwydiant dur, Forging Ahead, a ariannwyd gan yr un ffynhonnell. Bydd angen cyrchu cymorth grant i barhau â'r gwaith rhestru manwl, cadwraeth ac ehangu mynediad.



Cynhyrchir incwm drwy godi rhent am ardaloedd swyddfa nas defnyddir. Caiff yr ardal gronni yn yr ystorfeydd ei rhentu i sefydliadau treftadaeth diwylliannol sy'n ceisio llety diogel dros dro.

Mae gwasanaethau cadwraeth yn cael eu marchnata a ffioedd yn cael eu codi neu eu cynyddu ar gyfer gwasanaethau ychwanegol eraill. Caiff cyhoeddiadau eu hyrwyddo'n fwy cadarn ar ein gwefan a ailwampwyd sydd ag adran *Siop* yn hysbysebu ein holl eitemau sydd ar werth a gwasanaethau ychwanegol.



Mae'r sefyllfa wedi effeithio ar staff. Er ei bod wedi bod yn bosibl recriwtio gwarchodwr ychwanegol nid ydym wedi gallu cael archifydd newydd ar ôl ymddeol un archifydd. Penderfynodd Cyngor Caerdydd leihau oriau staff eleni gyda gostyngiad mewn tâl. Mae'r ystafell chwilio nawr yn agor am 10am fel nad yw staff y tîm mynediad yn cronni gormod o amser. I ateb y galw mewn ardrethi busnes gwnaethpwyd i ffwrdd â 2 swydd broffesiynol bellach, gan gynnwys y swydd Dirprwy Archifydd Morgannwg, yn ogystal ag 1 swydd weithredol. Byddwn yn parhau i gynnig y gwasanaeth gorau posibl, i godi cymaint o refeniw ag y gallwn heb effeithio'n negyddol ar y Casgliad neu ar ein defnyddwyr, a byddwn yn edrych ar yr opsiynau i oroesi.

Ym mlwyddyn deucanmlwyddiant Brwydr Waterloo mae'r hyn a ddywedodd y Cadfridog Blucher i'w filwyr yn addas, *"mae'n edrych yn eithaf anobeithiol ond ni allwn roi'r gorau iddi."* Fe weithiodd hynny iddo ef yn amlwg.



Susan Edwards
Archifydd Morgannwg



Delwedd trwy garedigrwydd
www.grrlAlex.co.uk



Michael Wilcox



Charlotte Hodgson

Dymuniadau gorau i'r cydweithwyr sydd wedi ein gadael ar
ymddiswyddiad gwirfoddol

	Archifau Morgannwg Clos Parc Morgannwg Caerdydd CF11 8AW		029 2087 2200
	Glamro@cardiff.gov.uk		www.facebook.com/glamarchives
	www.archifaumorgannwg.gov.uk		@GlamArchives